# CYFARFOD SWYDDOGOL GRŴP LLYWIO'R CABINET AR FATERION Y GYMRAEG CYNGOR RHONDDA CYNON TAF

Cofnodion cyfarfod o Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg, fore Mawrth 10fed Hydref 2016, 10am, Pencadlys y Cyngor, Cwm Clydach.

**Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol oedd yn bresennol**:-

G Hopkins – Cadeirydd

R Bevan (Mrs) M Webber

**Swyddogion oedd yn bresennol**

Mrs W Edwards – Pennaeth Addysg yn y Gymuned

Mr S Gealy – Rheolwr Gwasanaethau Cymraeg

Ms E Siôn – Menter Iaith

Mr Derek James - Pennaeth Cymunedau a Ffyniant

Mrs H Williams – Swyddog Busnes y Cabinet

**Eraill oedd yn bresennol**

James Eul - Cyfieithydd

Deborah Langford - Cyfieithydd

Ffion M Parrington - Cyfieithydd

**6 YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth Gynghorwyr y Fwrdeistref Sirol y Cyng (Mrs) E.Hanagan a C Davies, y Cyfarwyddwr Addysg, E Thomas ac oddi wrth yr Ysgrifennydd i'r Cabinet, Mr C Hanagan.

**7 CROESO**

Diolchodd y Cadeirydd i'r Aelodau a'r Swyddogion am fynychu cyfarfod Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg a chroesawu cyfieithwyr Uned Gwasanaethau Cymraeg y Cyngor a fydd yn arsylwi.

**8 DATGAN BUDDIANT**

Doedd dim datganiadau o fuddiant yn ymwneud â'r agenda.

**9 COFNODION**

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Gorffennaf, 2016 yn gofnodion cywir o'r cyfarfod yn dilyn y newid canlynol:

- Nodwyd bod trafodaethau pellach ar y posibilrwydd o ehangu'r ddarpariaeth ar gyfer ysgolion cyfrwng Cymraeg.

## 10 APÊL YNGLŶN Â SAFONAU'R GYMRAEG: PENDERFYNIAD COMISIYNYDD Y GYMRAEG

Rhoddodd Pennaeth Addysg yn y Gymuned ddiweddariad byr ar yr apêl ynglŷn â Safonau'r Gymraeg, gan gyfeirio'r Grŵp at lythyr Comisiynydd y Gymraeg at y Prif Weithredwr. Dywedodd y swyddog bod estyniadau wedi cael eu caniatau mewn perthynas â 5 allan o'r 14 safon a oedd yn destun apêl, gyda'r rhai a oedd yn effeithio ar wasanaethau sy'n bwyntiau cyswllt cyntaf yn yr awdurdod, megis llyfrgelloedd a derbynfeydd, (ar wahân i dderbynfeydd yr 8 prif swyddfa), yn cael eu hymestyn i fis Mawrth 2017. Cynghorwyd mai'r dyddiad cydymffurfio ar gyfer prif gyfrifon cyfryngau cymdeithasol y Cyngor oedd Mawrth 2017 a byddai cyfrifon cyfryngau cymdeithasol eraill yn dod o dan y safonau chwe mis yn ddiweddarach.

Holodd un Aelod am yr adnoddau ar hyn o bryd ac a fyddai gan yr awdurdod ddigon o amser i gydymffurfio â'r safonau. Dywedodd Pennaeth Addysg yn y Gymuned er ein bod ni'n gwerthfawrogi'r estyniadau, byddai'r amserlenni'n parhau'n her gan roi llawer o bwysau ar yr Uned Gwasanaethau Cymraeg. Eglurwyd bod arolwg ar y gweill ar hyn o bryd i fapio siaradwyr Cymraeg a dysgwyr ymhlith staff y Cyngor. Byddai hyn yn rhoi'r gwybodaeth berthnasol i reolwyr o ran gwella sgiliau'r rheiny sy'n hapus i wneud hynny, neu i hysbysebu swyddi'r dyfodol gyda'r wybodaeth gywir. Er enghraifft, o fod yr angen i benodi swyddog derbynfa yn codi, byddai rheolwyr yn gallu hysbysebu y byddai medrau sylfaenol o ran y Gymraeg yn hanfodol, a fyddai'n caniatáu targedu'r ymgeiswyr priodol a nifer uwch o geisiadau.

Cymerodd y Cadeirydd y cyfle i ddiolch i Bennaeth Addysg yn y Gymuned ac i'r Rheolwr Gwasanaethau Cymraeg am eu gwaith caled a'u dyfalbarhad.

## 11 DIWEDDARIAD AR GYNLLUN GWEITHREDU'R CYNGOR O RAN Y GYMRAEG

Rhoddodd Pennaeth Addysg yn y Gymuned ddiweddariad ar lafar i'r Aelodau ynghylch cynllun gweithredu'r Cyngor o ran Safonau'r Gymraeg. Eglurwyd byddai'r Prif Swyddogion yn parhau i gyfarfod bob tymor er mwyn iddyn nhw ddarparu diweddariadau ar sefyllfa'r Cyngor o ran cydymffurfio. Dywedodd y swyddog fod asesu sgiliau Cymraeg staff y Cyngor yn flaenoriaeth a dros y chwe mis diwethaf, mae dros 400 o staff rheng flaen a rheolwyr wedi mynychu sesiynau gwybodaeth a hyfforddiant ar beth ydy'r disgwyliadau o ran y Safonau. Eglurodd y swyddog, er bod hyn yn gam cadarnhaol i hyrwyddo'r neges, mae'r pwysau ar y staff cyfieithu wedi cynyddu eto.

Mynegodd yr Aelodau eu pryder ynghylch y llwyth gwaith a holwyd am y capasiti yn y dyfodol. Dywedodd Rheolwr Gwasanaethau Cymraeg er mwyn bodloni amserlenni, roedd rhaid blaenoriaethu gwaith a manteisio i'r eithaf ar y capasiti presennol lle bo hynny'n bosibl. Eglurwyd bod ffynonellau allanol wedi bod yn gymorth yn y gorffennol. Ond oherwydd llwyth gwaith cynyddol o awdurdodau lleol eraill, roedd sicrhau trosiant cyflym yn anodd. Cytunwyd y byddai rhoi templedi o gyfieithiadau sylfaenol i wasanaethau yn help i leddfu llwyth gwaith yr Uned Gwasanaethau Cymraeg. Nodwyd bod gwasanaethau hamdden y Cyngor wedi derbyn templedi sylfaenol iddyn nhw eu defnyddio a'u datblygu lle bo'n briodol.

Roedd y Cadeirydd am nodi bod RhCT yn gwbl gefnogol o'r Gymraeg ac wedi ymrwymo i hyrwyddo a hwyluso'r defnydd ohoni. Pwysleisiwyd er bod y safonau yn her i'r awdurdod, rhaid eu croesawu yn gam cadarnhaol ymlaen.

**12 SAFONAU'R GYMRAEG - ADRODDIAD YMGYNGHORI**

Rhoddodd Pennaeth Addysg yn y Gymuned adroddiad am ganlyniadau'r ymgynghoriad a gynhaliwyd gyda thrigolion ar y Safonau Iaith. Cyfeiriwyd yr Aelodau at adran 4 yr adroddiad lle nodwyd canlyniadau'r ymgynghoriad. Siaradodd y swyddog yn gadarnhaol am yr ymgynghoriad, gan ddweud y byddai gwybodaeth gan drigolion yn fuddiol o ran gwella a hyrwyddo'r Gymraeg yn Rhondda Cynon Taf.

Yn gyffredinol, mae'r Aelodau yn falch o ganlyniadau'r adroddiad ond nodwyd nad oedd yr wybodaeth yn adlewyrchu'r boblogaeth yn gyffredinol gan mai dim ond ychydig o unigolion cymerodd ran. Argymhellwyd bod mewnbwn parhaus drwy gydol y strategaeth 5 mlynedd, gyda stondinau'n cael ei sefydlu yn y dyfodol i ymgysylltu ag amrywiaeth ehangach o drigolion yn ystod unrhyw gyfnod ymgynghori. Ychwanegwyd trwy ymgynghori parhaus, byddai cyfle i ddathlu llwyddiannau, hyrwyddo darpariaethau newydd a gofyn am fewnbwn pellach.

Aeth y trafodaethau ymlaen i fater y Gymraeg yng ngwasanaethau hamdden y Cyngor. Cytunodd yr Aelodau er mwyn darparu'r gwasanaeth hwn, byddai rheoli staff mewn modd mwy effeithlon, gan gofio bod rhaid ystyried dewis rhieni. Er enghraifft, gallai staff sy'n siarad Cymraeg gynnig gwersi i'r plant hynny sy'n dymuno cael eu gwersi yn y Gymraeg. Gofynnodd yr Aelodau a fyddai modd cyflwyno gwersi dwyieithog er mwyn defnyddio amser staff yn fwy effeithlon. Dywedwyd bod hyn sgil arbenigol i'w ddatblygu yn y tymor hir.

Yn dilyn trafod, **PENDERFYNWYD**

- Nodi cynnwys yr Adroddiad

- Parhau â'r broses ymgynghori i gael rhagor o wybodaeth a safbwyntiau gan amrywiaeth ehangach o drigolion

**13 GWASANAETHAU IAITH GYMRAEG O FEWN RHAGLENNI TRECHU TLODI YN RHONDDA CYNON TAF**

Croesawodd y Cadeirydd Bennaeth Cymunedau a Ffyniant i'r cyfarfod. Rhoddwyd crynodeb o ganfyddiadau ac argymhellion yn dilyn adroddiad ymchwil ar y Gymraeg a gwasanaethau dwyieithog yn rhan o raglenni trechu tlodi'r Cyngor.

Dywedodd y swyddog wrth yr Aelodau yn rhan o agwedd y Cyngor tuag at drechu tlodi a'r angen i gynllunio'n rhagweithiol ar gyfer gweithredu'r Safonau Iaith, comisiynwyd Menter Iaith i gynnal adroddiad ymchwil. Amcan yr ymchwil oedd:

- Edrych ar wasanaethau Cymraeg a dwyieithog presennol y tair rhaglen tlodi trechu: Cymunedau yn Gyntaf, Dechrau'n Deg a Theuluoedd yn Gyntaf;
- Nodi cyfleoedd i adeiladu ar y gwasanaethau hynny trwy'r rhaglenni hyn, gan gymryd i ystyriaeth y gofynion a gyflwynwyd gan y Safonau Iaith;
- Darparu argymhellion er mwyn llywio cynlluniau strategol a phrosesau darparu gwasanaethau'r Cyngor wrth i'r Safonau gael eu gweithredu.

Roedd yr Aelodau'n falch o weld gwaith er mwyn gwella gwasanaethau dwyieithog yn rhan o'r rhaglen trechu tlodi. Codwyd ymholiadau mewn perthynas â chysylltiadau strategol rhwng Cymunedau yn Gyntaf ac ysgolion, gyda'r Aelodau yn cael sicrwydd bod darpariaethau ar waith i sicrhau bod pob aelod o staff wedi'u hyfforddi yn y Gymraeg.

Canolbwyntiodd trafodaethau ar y cyswllt rhwng tai cymdeithasol ac ysgolion, gydag Aelodau yn cytuno y byddai hyn yn hanfodol i bennu teuluoedd mewn angen cyn iddynt ddechrau'r ysgol. Dywedodd y swyddog fod y seilwaith ar y gweill yn barod a byddai o fudd i staff a theuluoedd fel ei gilydd.

Gofynnodd y Grŵp am eglurder ar y strategaeth ar waith ar gyfer plant sy'n dysgu ac arfer y Gymraeg yn yr ysgol ond bod diffyg cymorth gan eu teuluoedd. Cydnabu Pennaeth Addysg yn y Gymuned yr angen i roi'r sgiliau sylfaenol i rieni er mwyn helpu eu plant. Eglurwyd bod rhaglenni dysgu gyda'r teulu wedi bod mewn ysgolion ond oherwydd y sefyllfa ariannol, dydy'r gwasanaeth Addysg i Oedolion ddim mewn sefyllfa i barhau â'r ddarpariaeth. Ychwanegodd un Aelod fod angen ystyried materion ymarferol, megis amseroedd sesiynau, er mwyn manteisio'n llawn ar y staff sydd ar gael.

Daethpwyd i'r casgliad y byddai cynllun gweithredu yn cael ei baratoi mewn partneriaeth â Menter Iaith, er mwyn sicrhau cynnydd yn y camau gweithredu sydd ar waith.

**14 YMGYNGHORIAD STRATEGAETH Y GYMRAEG 2016-2021**

Cyflwynodd Pennaeth Addysg yn y Gymuned y Strategaeth Pum Mlynedd (Drafft) gan gwmni Sbectrwm ar gyfer hybu a hwyluso'r Gymraeg yn Rhondda Cynon Taf. Esboniwyd byddai'r Aelodau yn cael cyfle i ddiwygio a chymeradwyo'r ddogfen cyn iddi gael ei chyflwyno yn ffurfiol i'r Cabinet.

Siaradodd aelodau yn gadarnhaol am y lefel gytbwys o uchelgais yn y strategaeth, gan ddweud byddai'r targedau yn her ond heb fod allan o gyrraedd.

Cyfeiriodd un Aelod at dudalen 141 o'r strategaeth a'r tabl sy'n dangos nifer y siaradwyr Cymraeg ym mhob cymuned leol. Dywedodd y byddai dadansoddiad mwy manwl o bob tref yn fuddiol.

Cytunodd yr Aelodau y byddai'n bwysig i anfon y strategaeth ddrafft at y Fforwm Iaith a phartneriaid eraill am eu hadborth cyn ei chyflwyno i'r Cabinet, gan sicrhau bod pob sefydliad yn ymwybodol o'r gofynion a'r goblygiadau posibl yn y dyfodol.

**PENDERFYNWYD:**

- Newid 'Pendyrys' i 'Tylorstown' ar dudalen 14 o'r strategaeth
- Darparu dadansoddiad mwy manwl o siaradwyr Cymraeg ym mhob ardal
- Anfon yr adroddiad at y Fforwm Iaith a phartneriaid eraill am eu sylwadau
- Ailymgynnull ym mis Tachwedd i drafod unrhyw newidiadau yn sgil trafodaethau gan y Fforwm Iaith a phartneriaid eraill

**15 CWYNION ac Ymchwiliadau Byw**

Rhoddodd Pennaeth Addysg yn y Gymuned ddiweddariad ar lafar mewn perthynas â chwynion diweddar ac ymchwiliadau byw.

- Derbyniwyd un gŵyn o ran taliadau ar-lein ar gyfer cinio ysgol a'r ffaith doedd dim modd gwneud hynny yn y Gymraeg. Hysbyswyd yr Aelodau bod y mater wedi'i ddatrys gyda'r opsiwn i dalu'n ddwyieithog bellach ar gael ar-lein.
- Derbyniwyd llythyr oddi wrth Gomisiynydd y Gymraeg yn cwestiynu'r mater blaenorol o ran gwersi nofio yn cael eu darparu yn Gymraeg a'r Saesneg. Mae'r gwasanaeth hamdden yn edrych ar ffyrdd o ddatrys y mater ar hyn o bryd ond bod pryderon ynghylch lefelau hyder staff o ran siarad yr iaith a'r gost. Esboniwyd i'r Aelodau ei fod yn costio mwy i deuluoedd gael y gwersi yn y Gymraeg gan mai'r Urdd sy'n eu cynnal. Mae'r gwersi nofio Saesneg am ddim ac yn dod o dan raglen Hamdden

am Oes y Cyngor.  Cytunodd yr Aelodau fod hyn yn annerbyniol a'i fod yn bwysig i beidio â cham-wahaniaethu  yn erbyn siaradwyr Cymraeg.

## 16 DYDDIAD y cyfarfod nesaf

Gyda chytundeb y Cadeirydd, nodwyd byddai  cyfarfod nesaf Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg ym mis Tachwedd, 2016.

**Daeth y cyfarfod i ben am 11.45am** **Y Cynghorydd G Hopkins**

**Cadeirydd.**